# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 19 Mai 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i’r Prif Weinidog

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyswllt adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa? (WAQ54114)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae rhoi caniatâd i Orsafoedd Pŵer dros 50MW, a fyddai'n cwmpasu atomfeydd newydd, yn fater a gadwyd yn ôl ar gyfer Llywodraeth y DU. O fis Ebrill 2010 bydd hwn yn fater i'r Comisiwn Cynllunio Annibynnol.

Fodd bynnag, byddai gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl yn ymwneud â chaniatadau penodol a fyddai'n ofynnol gan weithredwyr niwclear yng Nghymru, megis trosolwg cyffredinol o Asiantaeth yr Amgylchedd (sy'n rheoleiddio'r broses o waredu gwastraff ymbelydrol a'i drosglwyddo oddi ar y safle) a rôl apeliadol a phwerau 'galw i mewn' yn ymwneud â phenderfyniadau trwyddedu gwastraff ymbelydrol a wneir gan yr Asiantaeth yng Nghymru.

Mae system gadarn a manwl gywir ar waith ar gyfer cymeradwyo gwaith adeiladu niwclear newydd yng Nghymru a Lloegr y byddai'n rhaid i unrhyw ddatblygwyr ei dilyn. Byddai'n rhaid i unrhyw ymgeisydd sydd am adeiladu atomfa newydd yng Nghymru gyflwyno'r manylion llawn i ni. Byddem yn cyflwyno ein sylwadau i'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) neu i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC), yn seiliedig ar gyngor a gafwyd gan yr holl gyrff statudol perthnasol sy'n ymwneud â'r amgylchedd a thrafnidiaeth yn y ffordd arferol, a chan ystyried ein polisi ynni.

Byddwn yn disgwyl i ni fod â diddordeb arbennig yn agweddau diogelu iechyd, rheoli gwastraff ymbelydrol/gweddillion tanwydd a diogelwch ar y safle ar unrhyw ddatblygiad yng Nghymru neu'n agos ati.

Pryderon diogelwch ac amgylcheddol o’r fath yw'r prif ffocws wrth ddelio â phrosiectau niwclear. Câi'r rhain eu hystyried ochr yn ochr â'r potensial i greu swyddi newydd sy'n deillio o adeiladu a rhedeg atomfeydd newydd. Byddem bob amser yn ceisio sicrhau'r manteision cymdeithasol ac economaidd mwyaf posibl o unrhyw orsafoedd pŵer o'r fath a adeiledir yng Nghymru.

## Cwestiynau i’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael gyda Chyngor Caerdydd ynghylch y cynigion i adeiladu ffordd gyswllt Ddwyreiniol y Bae? (WAQ 54137)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Rwyf wedi cyfarfod â Chyngor Caerdydd i drafod eu cynigion trafnidiaeth gan gynnwys Ffordd Cyswllt Dwyreiniol y Bae. Bydd angen i'r Cyngor roi ei gynigion i flaenoriaethu'r cynllun o fewn Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol SEWTA, a chaiff y fersiwn terfynnol ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddarach eleni.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Irene James (Islwyn):** A fydd gan yr ysbyty newydd yng Nghaerffili wasanaethau golchi dillad ar gyfer gwisgoedd y staff? (WAQ54178)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Caiff cyfleuster golchi dillad canolog ar gyfer glanhau gwisgoedd ei ddarparu yn Llanfrechfa Grange, a bydd cyfleuster Newid Canolog yn Ysbyty Ystrad Fawr lle y caiff gwisgoedd glân eu dosbarthu'n ddyddiol.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa wybodaeth y mae pob sefydliad GIG wedi'i chyflwyno yn ei ffurflen ystadau o ran y ffigur net y mae'n disgwyl ei dderbyn drwy waredu tir ac eiddo yn 2007-08? (WAQ54180)

**Edwina Hart:** Nodir y wybodaeth y gofynnwyd amdani isod:

| Ymddiriedolaeth GIG / BILl | **Derbyniadau Amcangyfrifedig (£)** | **Derbyniadau Gwirioneddol (£)** |
|---|---|---|
| Bro Morgannwg | 4,571,000 | 4,456,000 |
| Caerdydd a'r Fro | Dim | Dim |
| Sir Gaerfyrddin | Dim | Dim |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | Dim | Dim |
| Conwy a Sir Ddinbych | Dim | Dim |
| Gofal Iechyd Gwent | 1,796,000 | 1,796,000 |
| Gogledd-ddwyrain Cymru | 915,000 | 740,000 |
| Gogledd Morgannwg | 2,850,000 | 3,305,000 |
| Gogledd-orllewin Cymru | 1,050129 | 1,090,629 |
| Sir Benfro a Derwen | 150,000 | 175,000 |
| Pont-y-pridd a'r Rhondda | 711,000 | 364,950 |
| Abertawe | 120,000 | 121,000 |
| **BILl Powys** | 300,000 | Dim |
| **Felindre** | Dim | Dim |
| **Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** | Dim | Dim |
| **Cyfanswm y Derbyniadau ar 31 Mawrth 2008** | | **12,048,579** |

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Faint o dir y mae pob sefydliad GIG wedi'i nodi yn ei ffurflen ystadau y bydd yn disgwyl a fydd ar gael ar gyfer ei waredu yn 08/09, 09/10 a 10/11? (WAQ54181)

**Edwina Hart:** Mae fy swyddogion yn cynnal adolygiad parhaus o'r gwarediadau posibl o dir, gan ystyried y Rhaglen Gyfalaf sy'n datblygu, y farchnad gyfredol, yr angen am dai fforddiadwy ac, wrth gwrs, fy mhroses o ad-drefnu'r GIG yng Nghymru.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Faint o driniaethau IVF sydd wedi cael eu cynnal ym mhob un o'r 3 blynedd diwethaf, ac o'r triniaethau hynny, faint a oedd yn llwyddiannus ym mhob blwyddyn? (WAQ54186)

**Edwina Hart:** Mae gan Gomisiwn Iechyd Cymru, y corff comisiynu ar gyfer triniaeth IVF, y data hwn o 2007, ac fe'i nodir yn y tabl isod.

| Blwyddyn | Cyfanswm y Triniaethau a | Nifer y triniaethau | Nifer y triniaethau lle mae data ar | Nifer y triniaethau lle mae |
|---|---|---|---|---|

| | gomisiynwyd | llwyddiannus | goll | canlyniadau yn yr arfaeth |
|---|---|---|---|---|
| 2007/8 | 522 | 128 | 157 | dd/g |
| 2008/9 | 468 | 178 | dd/g | 50 |

Mae gwelliant wedi bod yn y cyfraddau llwyddiant wrth i dechnegau wella ac wrth i Gomisiwn Iechyd Cymru barhau i weithio gyda darparwyr IVF i wella'r canlyniadau i gleifion ymhellach.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i roi i'r diwydiant ffilm yng Nghymru ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ54124)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Mae'r gefnogaeth a ddarparwyd o Setliad Cymorth Grant Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) a chymorth ariannol uniongyrchol Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) i ddiwydiant ffilm Cymru fel a ganlyn:

| Blwyddyn | Cymorth LlCC drwy Cymorth Grant CCC | Cymorth Uniongyrchol LlCC | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|
| 1999 - 2000 | £255,390 | £0 | £255,390 |
| 2000 - 2001 | £251,480 | £0 | £251,480 |
| 2001 - 2002 | £259,020 | £0 | £259,020 |
| 2002 - 2003 | £300,071 | £0 | £300,071 |
| 2003 - 2004 | £306,782 | £0 | £306,782 |
| 2004 - 2005 | £314,754 | £0 | £314,754 |
| 2005 - 2006 | £157,302 | £476,750 | £634,052 |
| 2006 - 2007 | £164,604 | £1,169,350 | £1,333,954 |
| 2007 - 2008 | £168,719 | £2,419,092 | £2,587,811 |
| 2008 - 2009 | £172,889 | £1,409,743 | £1,582,632 |

Nid oes gwybodaeth am gymorth a ddarparwyd gan Sgrin ac a reolwyd gan gyn Awdurdod Datblygu Cymru ar gael ar hyn o bryd. Bydd swyddogion yn darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau penodol y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cael â chyrff chwaraeon mawr dros y 12 mis diwethaf ynghylch cynnal digwyddiadau yng Nghymru? (WAQ54130)

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trafod yn rheolaidd â llawer o gyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol Cymru a'r DU/Prydain Fawr a rhanddeiliaid eraill mewn ymgais i ddenu digwyddiadau chwaraeon blaenllaw i Gymru.

Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, mae swyddogion wedi cynnal cyfres o chwe gweithdy i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe, Wrecsam, Bangor ac Aberystwyth fel rhan o'r broses o ddatblygu strategaeth i ddenu digwyddiadau blaenllaw i Gymru. Cynrychiolwyd nifer o gyrff llywodraethu chwaraeon yn y gweithdai hyn.

Rydym wedi ymgysylltu â Chyrff Llywodraethu chwaraeon Cymru drwy eu fforwm Prif Swyddogion Gweithredol i drafod strategaeth i ddenu digwyddiadau blaenllaw i Gymru a chyfleoedd posibl i Gymru gynnal digwyddiadau wrth i Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 agosáu.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol yn rheolaidd gydag Undeb Rygbi Cymru, Stadiwm y Mileniwm, Cymdeithas Bêl-droed Cymru a chyda rhanddeiliaid allanol megis UK Sport.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw cyfanswm nifer y lleoedd a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer sipsiwn-teithwyr ym mhob blwyddyn er 1999, wedi'u dadansoddi fesul ardal awdurdod lleol? (WAQ 54150)

**Brian Gibbons:** Ailgyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Cyfrifiad Carafannau eilflwydd ym mis Gorffennaf 2006 o ganlyniad i adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, "Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid", yn 2003 ac yn fwy diweddar, adroddiad Pat Niner ar "Anghenion Llety Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru" (2006). Cyn hyn, cynhaliwyd yr arolwg cyfrifo Sipsiwn a Theithwyr diwethaf ym mis Ionawr 1997.

Dangosir y ffigurau diweddaraf yn y tabl isod.

| | 2006 Gorffennaf | 2007 Gorffennaf | 2008 Gorffennaf | **2009 Ionawr** |
|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 29 | 24 | 20 | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | | | 0 | |
| Caerffili | 0 | 0 | 0 | |
| Caerdydd | 76 | 76 | 76 | |
| Sir Gaerfyrddin | 30 | 30 | 30 | |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | |
| Conwy | 0 | 0 | 0 | |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | |
| Sir y Fflint | 20 | 20 | 20 | |
| Gwynedd | 8 | 8 | 8 | |
| Merthyr Tudful | 24 | 12 | | |
| Sir Fynwy | | 0 | 0 | |
| Castell-nedd Port Talbot | 56 | 56 | 56 | |
| Casnewydd | 0 | 0 | 0 | |
| Sir Benfro | 79 | 80 | 77 | |
| Powys | 11 | 11 | 12 | |
| Rhondda Cynon Taf | 5 | 5 | | |
| Abertawe | 7 | 7 | 7 | |
| Tor-faen | 0 | 28 | 27 | |
| Bro Morgannwg | | | 0 | |
| Wrecsam | | 19 | 17 | |

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganran o eiddo sy’n berchen i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, neu’n cael ei lesio ganddynt, sy’n cydymffurfio â’r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd? (WAQ 54151)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi pwys mawr ar chwalu'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl, drwy wneud ei gwasanaethau'n hollol hygyrch iddynt a thrwy reoli a recriwtio staff. Ers cwblhau archwiliad ar fynediad i bobl anabl yn 2002 a oedd yn cwmpasu ystad weinyddol gyfan Llywodraeth Cynulliad Cymru, aed i'r afael â rhaglen sylweddol o waith gwella mewn perthynas â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, ac o ganlyniad mae lefelau cydymffurfio'r ystad weinyddol dros 98%, gyda gweddill y swyddfeydd wedi'u clustnodi i'w gwaredu neu eu hadolygu ymhellach.

Mae archwiliad Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd newydd ar gyfer yr ystad gyfan hefyd wedi'i gomisiynu ar gyfer 2009/10 gyda'r nod o sicrhau'r mynediad gorau posibl i bobl anabl. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn ymrwymedig i sicrhau'r safonau uchaf o ran mynediad wrth ddatblygu’r swyddfeydd newydd yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Mae cynghorwyr proffesiynol annibynnol wedi'u penodi i roi cyngor ar yr holl faterion sy'n ymwneud â mynediad yn y broses ddylunio.

Ni chedwir gwybodaeth yn ganolog ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.